**CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL**
**Cadeirydd:** Alun Owen
Nos Lun Ionawr 8fed 2024 am 7.30 y.h.

# Cofnodion (112)

Yn absenoldeb y Cadeirydd cymerwyd y gadair gan yr Is-gadeirydd Gari B Jones, croesawyd Gwion Jones atom i drafod y diweddara yn ymwneud a'r Astudiaeth Ddichonolrwydd. Trefnwyd iddo ddod i'r cyfarfod nesaf o'r Cyngor Cymuned i drafod ymhellach.

1. **Ymddiheuriadau**: Cyng. Alun Owen
2. **Presennol:** Cyng. Gari B Jones, Gerallt Jones, Gethin Pyrs, Edmund Rees, Cyng. Sirol Gwennol Ellis ac Enid Williams (Clerc)
3. **Còd Ymddygiad:** Datgan Cysylltiad neu ddiddordeb personol mewn un neu fwy o eitemau'r Agenda - neb yn datgan diddordeb
4. **Cofnodion mis Tachwedd** cynigiwyd yn gywir gan ER gydag GJ yn eilio.
5. **Materion y Codi o'r Cofnodion:**
    - 5.1.1. Swyddogion o Gonwy yn cyfarfod a'r Cynghorwyr ar y Parc Picnic i drafod torri'r mieri a'r coed. Dywedodd un swyddog nad oedd arian ar gael i wneud y gwaith.
    - 5.1.2. Gwasanaeth Llyfrgelloedd Conwy – dim digon yn bresennol i drafod y cais am arian. Penderfynwyd gyrru at y Cynghorwyr i ofyn ei barn ar y mater.
    - 5.1.3. Diweddara ynglŷn â Maes Parcio a Sgubor Rin – gweler adroddiad y Cynghorydd Sirol.
6. **Gohebiaeth:**
   CBSC – wedi derbyn y trydydd taliad o'r Presept £1,600.00.
7. **Monitro'r Gyllideb:**
    - i) Edrychwyd dros y gyllideb a chafwyd popeth mewn trefn.
    - ii) Edrychwyd dros y fantolen banc a'i derbyn yn gyflawn.
8. **Cyllideb 2024-25:**
   **E**drychwyd dros y Gyllideb a'i derbyniwyd yn gywir.
9. **Talu Anfonebau:**
    - 9.1.1. Cradur.com - cynigiodd ER gyda GJ yn eilio talu'r anfoneb am y wefan o **£43.00** gyda siec rhif **100400.** (S55)
    - 9.1.2. Canolfan Gymdeithasol Pentrefoelas – cynigiodd GJ gyda GP yn eilio talu'r tal aelodaeth am 2023 o **£50.00** gyda siec rhif **100401** (S133).
    - 9.1.3. Costau'r Clerc am 4 mis o Awst i Dachwedd – cynigiodd GP gyda ER yn eilio talu'r costau o **£80.85** gyda siec rhif **100402** (S150)
10. **Gair gan y Cyng. Sirol Gwenno Ellis:** '*Yn dilyn ein cyfarfod efo'r Cynghorydd Nigel Smith ar safle'r tir y mae'r Cyngor yn dymuno ei waredu, cafodd y Cyng. Smith a minnau gyfarfod efo swyddogion ar Ragfyr 11eg. Mae'r swyddogion yn gweithio i linio cynllun a chynigion a byddent yn dod a Thai a Chynllunio i mewn cyn bo hir gan y bydd rolau iddynt hwythau hefyd. Felly mae'r symudiad a'r cynllun hwn yn uniongyrchol tuag at Dai ar gyfer y safle cyfan yn dai i gael ei ddatblygu. Ni fydd sicrwydd am beth fydd yn digwydd am beth amser. Bydd angen cymeradwyaeth ddemocrataidd gan y Cabinet maes o law i'r cynnig a gasglwyd ar gyfer y safle cyn y bydd unrhyw beth yn cael ei weithredu'n ffurfiol.'*

***Astudiaeth Dichonoldeb***
*- cyfarfod efo'r Pennaeth a Chadeirydd y CRhA dydd Ia yma i drafod eu bwriad i gael Maes Chwarae Pob Tywydd.*

11. **Unrhyw fater arall:**
    - 11.1. Pont bren wrth y bibell yn y cae ar y dde ar ôl mynd dros y bont angen sylw.
    - 11.2. Newid noson y cyfarfodydd – oherwydd amgylchiadau penderfynwyd newid noson y cyfarfod o'r nos Lun cyntaf i'r nos Fawrth cyntaf yn y mis. Cytunwyd pawb ar hun.
12. **Dyddiad y cyfarfod nesaf** nos Fawrth Chwefror 6ed 2024

Arwyddwyd____________________________ Dyddiad 06.02.24
Cadeirydd